**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**CABINET**

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Mercher, 11 Medi 2019 am 2.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypandy, CF40 2XX.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Ms J Bow, Head of Service - Accommodation
Mr N Elliott, Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd P Jarman
Y Cynghorydd L Jones
Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd J Williams
Y Cynghorydd R Yeo

**27 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, datganodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Jones y buddiant personol canlynol mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda:
"Mae fy mam yn derbyn gofal seibiant yng Nghartref Gofal Ystradfechan."

**28 COFNODION**

**PENDERFYNODD** y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2019 yn rhai cywir.

**29 MODERNEIDDIO GOFAL PRESWYL A GOFAL ORIAU DYDD AR GYFER POBL HŶN**

Rhoddodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant drosolwg cynhwysfawr i'r Aelodau o'r adroddiad ger eu bron. Darparodd wybodaeth fanwl am yr ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y cynigion, y rhesymeg y tu ôl iddynt ar lefel leol a chenedlaethol, a'r canlyniadau a'r argymhellion am ddyfodol darpariaeth gwasanaethau oriau dydd a chartrefi gofal preswyl y Cyngor yn sgil yr adborth a ddaeth i law drwy'n hymgynghoriad.

Soniodd Cyfarwyddwr y Gyfadran fod angen i'r Cyngor adolygu'r gwasanaethau gofal oriau dydd a'r cartrefi gofal mae'n eu darparu'n fewn yn rhan o ymgais i foderneiddio'r gofal hir dymor mae'n ei gomisiynu i bobl hŷn yn y dyfodol. Ychwanegodd nad oedd gwneud dim ynglŷn â'r cynigion yn bosibl, a heb ystyried y potensial ar gyfer ail-strwythuro'r ffordd y caiff gofal i oedolion ei ddarparu, ni fyddai'n bosibl bodloni disgwyliadau newidiol pobl na'r galw cynyddol gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Cafodd yr angen am newid ei amlygu hefyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru.

Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y Gyfadran at y buddsoddiad cadarnhaol sydd wedi'i wneud eisoes ar draws y Fwrdeistref Sirol gyda chyfleusterau Gofal Ychwanegol y Cyngor a buddion y ddarpariaeth yma sy'n rhoi'r cyfle i drigolion fyw'n annibynnol gan fanteisio ar becyn gofal pan fo'i angen.

O ran gwasanaethau gofal dydd, nodwyd er bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn boblogaidd ymhlith y bobl sy'n eu defnyddio a'i bod yn darparu seibiant hanfodol i gynhalwyr, mae nifer y bobl sy'n mynychu canolfannau oriau dydd i bobl hŷn wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf. Nododd Cyfarwyddwr y Gyfadran nad dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fodloni anghenion pobl bellach.

Adroddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran am yr ymgynghoriad a gynhaliwyd rhwng 14 Ionawr 2019 ac 8 Ebrill 2019, yn dilyn penderfyniad y Cabinet ar 21 Tachwedd 2018 ar yr opsiynau roedden nhw'n eu ffafrio ar gyfer model darparu gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer cartrefi gofal preswyl a gwasanaethau gofal oriau dydd y Cyngor yn Rhondda Cynon Taf. Dywedwyd wrth yr aelodau fod canlyniadau'r adborth hefyd yn destun craffu yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 22 Gorffennaf, gyda'r sylwadau yn rhan o'r adroddiad, i gynorthwyo Aelodau yn eu trafodaethau.

Cyfeiriwyd yr aelodau at adrannau saith ac wyth yr adroddiad, a oedd, ar ôl trafod adborth yr ymgynghoriad a barn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, yn rhoi amlinelliad o'r opsiynau roedd y Cabinet yn eu ffafrio ar gyfer model gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer cartrefi gofal preswyl a gwasanaethau gofal oriau dydd y Cyngor i bobl hŷn.

Cyn gorffen ei adolygiad, soniodd Cyfarwyddwr y Gyfadran am y trafodaethau amserol a gafwyd gyda staff ac Undebau Llafur trwy gydol y broses hyd yma gan ychwanegu pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r cynigion, byddai dull fesul cam yn cael ei ddatblygu i ddatgomisiynu gwasanaethau. Atgyfnerthodd hefyd y neges bod angen yr adolygiad a gynhaliwyd oherwydd yr angen am newid ac i

fwrw ymlaen â'r agenda foderneiddio ac nid oherwydd mesurau cyni.
Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg i Gyfarwyddwr y Gyfadran am y trosolwg cynhwysfawr a manteisiodd ar y cyfle i dalu teyrnged i'r holl staff yn y gwasanaeth, gan roi sylwadau ar y gofal rhagorol sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd gan yr holl staff yn y lleoliadau gofal preswyl a gofal oriau dydd. Ychwanegodd fod hyn wedi'i ategu gan breswylwyr.
Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am y sgyrsiau strategol amrywiol a oedd yn llywio'r angen am adolygu gwasanaethau, gan gyfeirio at y strategaeth gofal ychwanegol a'r polisi comisiynu rhanbarthol. Soniodd hefyd am ddisgwyliadau uwch y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol o'r gwasanaeth a bod angen darparu ar gyfer y rhain. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet at y gwaith addysgiadol a wnaed yn rhan o'r adolygiad annibynnol a gomisiynodd y Cyngor, ystyriaeth y Cyngor o'r wybodaeth a'r ymgynghoriad dilynol a gynhaliwyd lle y casglwyd yr adborth sydd ger bron yr Aelodau heddiw. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am yr angen i'r Cyngor barhau i gynnig rhywfaint o ddarpariaeth yn y farchnad yn y dyfodol, a bod hyn yn bwysig. Nododd hefyd ei fod yn bwysig i'r Cyngor ymgymryd â rôl arweiniol wrth gomisiynu gwasanaethau er budd ei drigolion.

Manteisiodd Arweinydd y Cyngor ar y cyfle i gynghori am unrhyw oblygiadau posibl i staff sy'n deillio o unrhyw benderfyniad, a chadarnhaodd na fyddai unrhyw ddiswyddiadau gorfodol, a gofynnodd i'r Aelodau ychwanegu'r ymrwymiad hwn at yr argymhellion wrth bleidleisio. Cytunodd yr Aelodau i hyn.

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd yr ymrwymiad mewn perthynas ag osgoi diswyddiadau gorfodol ac ailadroddodd ei diolch i'r staff am y gwasanaeth a ddarparwyd i rai o'r preswylwyr mwyaf bregus ar draws y Fwrdeistref Sirol. Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd hefyd at y cyfleusterau newydd rhagorol sy'n rhan o'r ddarpariaeth Gofal Ychwanegol, gan gyfeirio hefyd at y buddsoddiad mae hyn yn ei wneud o ran lles yn y dyfodol a sicrhau'r ddarpariaeth orau i fodloni anghenion preswylwyr. Gwnaeth y Dirprwy Arweinydd sylwadau ar y cynnig i ddadgomisiynu a holodd sut y byddai proses o'r fath yn cael ei rheoli petai'n cael ei rhoi ar waith, a gofynnodd bod un pwynt cyswllt yn cael ei sefydlu i reoli'r holl gyfathrebu y bydd ei angen â staff a phreswylwyr. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gyfadran fod proses o'r fath yn ei lle yn barod, ac eiriolwr addas yn gweithio gyda staff, preswylwyr a theuluoedd. Gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am sicrwydd y byddai'r Cyngor, hyd eithaf ei allu, dim ond yn gofyn i breswylwyr sydd wedi'u heffeithio gan y newidiadau symud unwaith, er mwyn lleihau'r straen a'r anghyfleustra y gallai hyn eu peri iddyn nhw a'u teuluoedd. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gyfadran mai dyna yw'r bwriad.
Daeth y Dirprwy Arweinydd a'i sylwadau i ben trwy ddiolch i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu am drafod yr adborth a gasglwyd yn rhan o'r ymgynghoriad, ac am eu cyfraniad gwerthfawr i'r broses.

Gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant sylwadau am y cynigion a oedd gerbron yr Aelodau. Nododd nad oedd unrhyw amheuaeth nad oedd ansawdd y gofal sydd ar gael yn dda, ond bod angen canolbwyntio ar anghenion preswylwyr yn y dyfodol. Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet a oedd y model arfaethedig yn darparu ar gyfer preswylwyr ag anghenion 'mwy cymhleth'? Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gyfadran fod y cyfleusterau hyn ar gael trwy'r cynigion a ddarparwyd.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar Faterion Menter, Datblygu a Thai y ddarpariaeth yn ardal Cwm Rhondda Fach, gan roi sylwadau ar bwysigrwydd

sicrhau bod darpariaeth ar gael ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth am ei chysylltiad agos â'r gwasanaeth, gan fod aelod o'r teulu wedi preswylio mewn cartref o'r blaen, a phwysleisiodd ansawdd uchel y gofal sy'n cael ei gynnig. Er hynny, roedd hi'n cydnabod nad oedd y ddarpariaeth bresennol yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol, gan fod nifer o'r preswylwyr am fyw'n annibynnol am gyhyd â phosibl, a chyfeiriodd at y ffaith y bydd hyn yn bosibl o ganlyniad i'r cyfleusterau Gofal Ychwanegol. Ategodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc y teimladau hyn, gan sôn am yr angen i ddarparu gofal y byddai bawb am ei dderbyn ei hun, neu weld eu ffrindiau a'u teulu'n ei dderbyn Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd at y cyfleoedd y mae'r ddarpariaeth Gofal Ychwanegol yn eu cynnig i symud gofal preswyl yn ei flaen.

Cydnabu'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol angen i'r Cyngor cadw presenoldeb yn y farchnad a chyfeiriodd at y sefyllfa mewn Awdurdodau eraill, lle mae gan yr Awdurdod Lleol ddarpariaeth fach iawn, os oes gyda nhw ddarpariaeth o gwbl. Gofynnodd yr Aelod o'r Cabinet a oedd y cynnig yn yr adroddiad yn rhoi'r cydbwysedd iawn ac a yw'r nifer o leoedd gofal y Cyngor yn golygu cadw presenoldeb sylweddol yn y farchnad. Cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gyfadran fod y cynigion yn rhoi cydbwysedd addas yn ei farn ef, yn ogystal â phresenoldeb arwyddocaol i'r Awdurdod Lleol, yn arbennig o'i gymharu ag Awdurdodau eraill. Ychwanegodd fod diffinio cymhlethdod yn caniatáu i'r Awdurdod fod yn hyblyg a soniodd am y gwaith a allai gael ei wneud o fewn y sector annibynnol er mwyn datblygu.

Ailadroddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol sylwadau blaenorol, gan gynghori nad oedd yr adolygiad o wasanaethau preswyl a gofal oriau dydd yn ymarfer cynilo arian a soniodd am y buddsoddiadau mawr a wnaethpwyd eisoes trwy'r strategaeth Gofal Ychwanegol, gyda buddsoddiad o £50m ar ben y buddsoddiad cychwynnol. Ychwanegodd y byddai'r canolfannau y mae'r Cyngor yn cynnig eu cadw yn elwa o'r buddsoddiad i sicrhau eu bod yn addas i bwrpas yn y dyfodol.

Gyda chytundeb yr Arweinydd, ac yntau'n Gadeirydd y Pwyllgor, siaradodd yr aelodau o'r cyhoedd a Chynghorwyr y Fwrdeistref Sirol canlynol ar yr eitem, ac ymatebodd Aelodau a Swyddogion:

- Y Cynghorwyr S. Rees, P. Jarman, L. Jones, J. Williams, W. Jones a R. Yeo.
- Dr L. Arthur

Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau pellach ar y buddsoddiad a wnaethpwyd mewn perthynas â'r ddarpariaeth ac ailadroddodd eto nad oes neb erioed wedi rhagweld y byddai unrhyw un o'r cynigion yn cyflawni arbedion. Ychwanegodd hefyd na allai'r ddarpariaeth aros yr un fath ac roedd yn bwysig bod unrhyw newidiadau a gyflwynwyd yn cael eu rheoli mewn modd sensitif i bawb dan sylw. Ychwanegodd y byddai swyddogion yn gweithio gyda defnyddwyr cyfredol y canolfannau oriau dydd i edrych ar wahanol ddulliau o gyflenwi ac unwaith eto ailadroddodd a rhoddodd sicrwydd na fyddai unrhyw un o'r gwasanaethau'n dod i ben yn ddisymwth, ond y byddai newid dros dro.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg i bob siaradwr am eu cyfraniadau, diolchodd yr ymatebwyr am eu

hadborth i'r ymgynghoriad a chyfraniadau Aelodau'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu a myfyriodd ar y pwyntiau a godwyd. Croesawodd hefyd y sicrwydd a roddwyd gan yr Arweinydd mewn perthynas â 'dim diswyddiadau gorfodol'. Yn dilyn crynhoi **PENDERFYNWYD:**

1. Yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y model gwasanaeth yn y dyfodol ar gyfer cartrefi gofal preswyl a gwasanaethau gofal oriau dydd y Cyngor, ymatebion swyddogion i'r themâu allweddol a amlygwyd yn yr ymgynghoriad, yr wybodaeth ychwanegol a ddarperir yn yr adroddiad hwn a'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb, ac am y rhesymau a amlinellir yn Adran 7 yr adroddiad, cytuno i gyfnod pellach o 12 wythnos o ymgynghori â'r cyhoedd, staff a phreswylwyr ar y cynnig mae'r Cyngor yn ei ffafrio ar gyfer dyfodol cartrefi gofal preswyl y Cyngor, sef bod y Cyngor yn cadw'r cartrefi gofal preswyl isod ar agor, gan ganolbwyntio ar anghenion cymhleth, adsefydlu preswylwyr a gofal seibiant, sy'n seiliedig ar gyfran y farchnad a'r galw yn ardaloedd daearyddol Rhondda, Cynon a Thaf-élai:

**CARTREFI GOFAL SYDD WEDI CAEL EU CYNNIG AR GYFER EU CADW**

- Canolfan Adnoddau Cwrt Clydach, Trealaw
- Canolfan Adnoddau Tŷ Glynrhedyn (Ferndale House), Glynrhedynog
- Cartref Gofal Preswyl Tŷ Pentre, Pentre
- Canolfan Adnoddau Tegfan, Trecynon
- Cartref Gofal Preswyl Troed-y-rhiw, Aberpennar
- Cartref Gofal Preswyl Cae Glas, y Ddraenen Wen
- Cartref Gofal Preswyl Parc Newydd, Tonysguboriau

**CARTREFI GOFAL SYDD WEDI CAEL EU CYNNIG AR GYFER DATGOMISIYNU**

- Cartref Gofal Preswyl Bronllwyn, Y Gelli
- Cartref Gofal Preswyl Ystrad Fechan, Treorci
- Cartref Gofal Preswyl Dan-y-Mynydd, y Porth
- Cartref Gofal Preswyl Garth Olwg, Pentre'r Eglwys

**2.** Bod yr ymgynghoriad arfaethedig o 12 wythnos yn para o 30 Medi 2019 tan 5pm 20 Rhagfyr 2019

**3.** Derbyn adroddiad pellach yn crynhoi canlyniadau'r ymgynghoriad arfaethedig a'r adborth a geir cyn gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cynnig y cyfeirir ato ym mhwynt 1 uchod.

**4.** Parhau i gyfyngu ar dderbyn preswylwyr i gartrefi gofal y Cyngor, oni bai bod amgylchiadau eithriadol lle nad oes lleoliad arall ar gael i fodloni'r angen sydd wedi'i asesu. Mae hyn er mwyn lleihau unrhyw effaith bosibl ar breswylwyr cyn i'r Cabinet drafod canlyniadau'r ymgynghoriad arfaethedig ac unrhyw benderfyniad y gallai ei wneud ynglŷn â'r cynnig.

**5.** Gweithredu'r cynnig y mae'r Cyngor yn ei ffafrio o ran y gwasanaethau oriau dydd i bobl hŷn, sef bydd y Cyngor yn datblygu model

gwasanaethau oriau dydd newydd yn rhan o'r rhaglen arfaethedig i drawsnewid gwasanaethau i oedolion.

**6.** Bod Cyfarwyddwr Gwasanaethau i Oedolion yn sefydlu Grŵp Llywio Rhaglen Gwasanaethau Oriau Dydd i Bobl Hŷn i gyd-gynhyrchu'r model gwasanaethau newydd a goruchwylio cyflwyno'r model yn raddol.

7. Yn rhan o unrhyw gynnig y mae'r Cabinet yn cytuno arno, a'r broses reoli newid sy'n dilyn, sicrhau na fydd unrhyw ddiswyddiadau gorfodol ymhlith staff presennol lleoliadau Gofal Oriau Dydd neu Ofal Preswyl.

**Nodwch:** Galwodd yr Arweinydd am seibiant byr ar ôl ystyried yr eitem yma.

Pan ddaeth yr eitem yma i ben, gadawodd Cynghorwyr canlynol y Fwrdeistref Sirol y cyfarfod: P. Jarman; W. Jones; J. Williams & R. Yeo.

## 30 CAU CANOLFAN AILGYLCHU CYMUNEDOL Y GELLI

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran Ffyniant, Datblygu a Gwasanaethau Rheng Flaen drosolwg i'r Aelodau o'r ymatebion a dderbyniwyd yn yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r cynnig i gau Canolfan Ailgylchu Cymunedol y Gelli.

Atgoffwyd yr aelodau o'r rhesymeg dros y cynnig gyda Chyfarwyddwr y Gyfadran yn cynghori, oherwydd maint y ganolfan, y mynediad cyfyngedig a'r trefniadau parcio gwael, nad oedd y ganolfan yn gallu darparu'r un gwasanaeth â'r chwe chanolfan ailgylchu cymunedol arall yn y Fwrdeistref Sirol. Ychwanegodd fod y ganolfan hefyd wedi bod yn destun nifer o achosion o ladrata dros y 5 mlynedd diwethaf ac wedi ei fandaleiddio – felly roedd lefel y gwasanaethau yr oedd yn gallu eu cynnig i breswylwyr wedi gostwng yn sylweddol ac yn llai cost effeithiol na safleoedd eraill. Roedd y defnydd presennol o safle'r Gelli hefyd yn llawer llai na Threherbert a Dinas.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod Ymgynghoriad wedi'i gynnal rhwng 8 Gorffennaf a 5 Awst. Derbyniwyd un ar ddeg o ymatebion ysgrifenedig a chyflwynwyd Summary cyffredinol o'r ymatebion i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd, Hamdden a Gwasanaethau Treftadaeth am y materion sy'n effeithio ar safle'r Gelli a'r effaith negyddol yr oedd hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr, gyda staff yn gorfod troi preswylwyr i ffwrdd. Cyfeiriodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd at ddefnydd cyfartalog y canolfannau ailgylchu cymunedol, gyda'r Gelli yn casglu 100 tunnell y mis, tra bo Treherbert yn casglu cyfartaledd o 400 tunnell y mis, a Dinas yn casglu 700 tunnell y mis. Dywedodd yr Aelod o'r Cabinet, pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, oherwydd y cyfleusterau cyfagos erial, byddai'r effaith ar ddefnyddwyr yn fach iawn. Ychwanegodd y byddai'r gwasanaeth a ddarperid yn dal i fod yn uwch na nifer y canolfannau ailgylchu cymunedol a argymhellir fesul cartref, hyd yn oed o gau safle'r Gelli.

Gwnaeth yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd sylwadau hefyd ar y cynnig a chanlyniadau'r ymgynghoriad gan nodi'r darpariaethau a oedd ar gael o hyd a'r pellter teithio rhesymol rhwng y safleoedd presennol. Gwnaeth yr Arweinydd sylwadau hefyd ar y buddsoddiad a gyflwynwyd yn ddiweddar i rai o'r safleoedd

eraill yn y Fwrdeistref Sirol er budd preswylwyr.

Ar ôl trafod **PENDERFYNWYD:**

1. Yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r wybodaeth a ddarparwyd i'r Aelodau, gau Canolfan Ailgylchu Cymunedol y Gelli.

**31 BWRDD DIOGELU CWM TAF – ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018/19**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf i'r Aelodau, a oedd yn dangos effeithiolrwydd y Bwrdd wrth arfer ei swyddogaethau yn ystod blwyddyn ariannol 2018/19.

Cafodd yr Aelodau fanylion ynghylch arferion diogelu, cydweithredu, ymgysylltu, cyfranogi a chyfathrebu, gwybodaeth, hyfforddiant a dysgu, fel sy wedi'u nodi yn yr adroddiad.

Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymuned i Oedolion a'r Gymraeg o blaid yr adroddiad a'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â Diogelu. Cafodd y sylwadau yma eu hategu hefyd gan yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc mewn perthynas â'r gwaith sy wedi'i wneud gan y Bwrdd ar gyfer Plant ac Oedolion.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi a chymeradwyo cynnwys Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf ar gyfer 2018/19.

(Nodwch: Pan ddaeth yr eitem yma i ben, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol L. Jones y cyfarfod.)

**32 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - LLYTHYR AC ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018-2019**

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wybod i'r Cabinet am fanylion cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Gyngor Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2018-2019.

Yn ogystal â hyn, rhoddwyd trosolwg byr i'r Aelodau o'r pwerau newydd sydd wedi'u priodoli i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru trwy Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, a oedd yn cynnwys caniatáu i'r Ombwdsmon gynnal ei ymchwiliadau ei hun yn ôl yr angen er budd y cyhoedd.

Wrth fynd trwy'r adroddiad blynyddol, rhoddwyd Summary cyffredinol i'r Aelodau o'r cwynion a dderbyniwyd ac y gweithredwyd arnynt gan yr Ombwdsmon cyn i'r Cyfarwyddwr roi gwybod am y sefyllfa mewn perthynas â RhCT. Dysgodd yr aelodau fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi derbyn 36 o gwynion yn ystod 2018-2019 (2017/2018 - 36 a 2016/2017 - 47) yn ymwneud â RhCT. O ystyried y boblogaeth, disgwylid i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dderbyn 68 cwyn ar gyfer awdurdod lleol maint Rhondda Cynon Taf. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr bod y ffigwr yma'n cymharu'n ffafriol.

Ni ymchwiliodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i unrhyw gwynion o'i gymharu â chyfartaledd o 2 gŵyn ar draws Cymru gyfan (wedi'i addasu yn ôl y boblogaeth).

Siaradodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor yn gadarnhaol am yr adroddiad a'i ganfyddiadau mewn perthynas â Chyngor Rhondda Cynon Taf a chyfeiriodd hefyd at y pwerau newydd sydd ar gael i Swyddfa'r Ombwdsmon mewn perthynas â Deddf 2019 a sut y byddai'r rhain yn cael eu defnyddio wrth symud ymlaen.

**PENDERFYNWYD**:

1. Nodi Adroddiad Blynyddol a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2018-2019.

**33 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL 2018/19**

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu gopi o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer 2018/19 i'r Aelodau, yn unol â Chynllun Dirprwyo'r Arweinydd.

A hithau'n Gadeirydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, gwnaeth yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Plant a Phobl Ifainc sylw ar yr adroddiad a gwaith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn, gan roi sylwadau ar y dyheadau o fewn y cynllun a'r berthynas waith gadarnhaol gyda'r Pwyllgor Craffu. Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet i'r Aelodau a'r Swyddogion am eu hymrwymiad a'u gwaith ar hyd Flwyddyn y Cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

1. Nodi Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ar gyfer 2018/19.

**34 RHAGLEN WAITH Y CABINET: BLWYDDYN Y CYNGOR 2019–2020**

Darparodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu raglen waith ddrafft ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-20 i'r aelodau, a oedd yn rhestru'r materion y mae angen i'r Cabinet eu hystyried. Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod defnyddio'r rhaglen yn helpu i gadw'r broses gwneud penderfyniadau yn agored ac yn dryloyw o fewn y Cyngor, yn ogystal â rhoi rhagor o gyfleoedd o ran camau cyn craffu.

Cafodd yr Aelodau eu cyfeirio at Atodiad 1 yr adroddiad a dywedwyd wrthyn nhw bod y rhaglen yn ddogfen fyw fel bydd modd ychwanegu neu ddileu adroddiadau yn ystod y flwyddyn. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai canlyniadau'r ymgynghoriad mewn perthynas â gofal preswyl, fel y cytunwyd yn gynharach gan yr Aelodau yn y cyfarfod, yn cael eu hychwanegu at y rhaglen waith yn y dyfodol.

Croesawodd y Dirprwy Arweinydd ac Aelod o'r Cabinet ar faterion Busnes y Cyngor y rhaglen **PENDERFYNWYD:**

1. Cymeradwyo'r Rhaglen Waith ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-20

a chael yr wybodaeth ddiweddaraf bob 3 mis.

**35 CYNLLUN DIRPRWYO'R ARWEINYDD**

Nododd yr Aelodau Gynllun Dirprwyo mwyaf diweddar yr Arweinydd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2019-20.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.10 pm**

**Cllr A Morgan**
**Cadeirydd.**